



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2005 Rhif 434 (Cy.45)**

**2005 No. 434 (W.45)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

**Rheoliadau Cynlluniau Datblygu  
Addysg (Cymru) (Diwygio)  
2005**

**The Education Development Plans  
(Wales) (Amendment) Regulations  
2005**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Gwnaed y Rheoliadau hyn o dan adrannau 6 a 138 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac maent yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002.

These Regulations, which are made under sections 6 and 138 of the School Standards and Framework Act 1998, amend the Education Development Plans (Wales) Regulations 2002.

Mae adran 6 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod addysg lleol lunio cynllun datblygu addysg (sy'n cael ei adnabod yng Nghymru wrth yr enw "cynllun strategol addysg") ar gyfer ei ardal.

Section 6 of the School Standards and Framework Act 1998 requires every local education authority to prepare an education development plan (known in Wales as an education strategic plan) for their area.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r gofyniad am gynllun llawn dilynol ac yn mewnosod gofyniad am drydydd cynllun atodol i'w lunio ar gyfer blwyddyn ysgol 2005-06.

These Regulations remove the requirement for a subsequent full plan and insert a requirement for a third supplementary plan to be prepared for the school year 2005-06.

Hefyd, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ran y targedau sydd i'w gosod ar gyfer cyflawniadau disgyblion yng nghyfnodau allweddol dau a thri. Yn lle'r cyfeiriadau at brofion y Cwricwlwm Cenedlaethol maent yn rhoi cyfeiriadau at asesiadau gan athrawon ac yn darparu bod targedau a osodwyd sy'n cyfeirio at ganlyniadau profion i'w darllen fel petaent yn cyfeirio at ganlyniadau asesiadau gan athrawon. Mae'r diwygiadau yn rhannol ganlyniadol i Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004. Mae'r Gorchymyn hwnnw'n pennu'r trefniadau asesu ar gyfer disgyblion sy'n astudio Cymraeg (fel iaith gyntaf), Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ym mlwyddyn olaf cyfnod allweddol dau. Mae'n disodli'r gofyniad i brofion gael eu rhoi i'r disgyblion hynny, fel y penderfynir ar lefelau eu cyrhaeddiad drwy asesiadau gan athrawon.

These Regulations also make amendments in relation to the targets to be set for the achievements of pupils in the second and third key stages. They substitute for references to National Curriculum tests references to teacher assessments and provide that where targets have been set which refer to the results of tests, they are to be read as referring to the results of teacher assessments. These amendments are in part consequential on the National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2004. That Order specifies the assessment arrangements for pupils studying English, Welsh (as a first language), mathematics and science in the final year of the second key stage. It removes the requirement for tests to be administered to those pupils, so that their levels of attainment are determined by teacher assessments.

**2005 Rhif 434 (Cy.45)****2005 No. 434 (W.45)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Cynlluniau Datblygu  
Addysg (Cymru) (Diwygio  
2005****The Education Development Plans  
(Wales) (Amendment) Regulations  
2005***Wedi'u gwneud* 1 Mawrth 2005*Made* 1 March 2005*Yn dod i rym* 31 Mawrth 2005*Coming into force* 31 March 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 6 a 138 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(1) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 6 and 138 of the School Standards and Framework Act 1998(1) and now vested in the National Assembly for Wales(2), makes the following Regulations:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli****Citation, commencement, application and interpretation**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) (Diwygio) 2005, a deuant i rym ar 31 Mawrth 2005.

1.-(1) These Regulations may be cited as the Education Development Plans (Wales) (Amendment) Regulations 2005 and come into force on 31 March 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn y gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" yw Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002(3) ac mae cyfeiriad at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Prif Reoliadau sy'n dwyn y rhif hwnnw.

(3) In these Regulations "the Principal Regulations" means the Education Development Plans (Wales) Regulations 2002(3) and a reference to a numbered regulation is a reference to the regulation in the Principal Regulations bearing that number.

**Diwygio'r Prif Reoliadau****Amendment of the Principal Regulations**

2. Yn rheoliad 3(1) -

2. In Regulation 3(1) -

(a) ym mharagraffau (i) a (ii) o'r diffiniad o "cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd" yn lle'r geiriau "ym mhroffion y CC" rhodder y geiriau "mewn asesiadau gan athrawon";

(a) in paragraphs (i) and (ii) of definition of "to achieve the Core Subject Indicator" substitute for "NC tests" the words "teacher assessments";

(1) 1998 p.31. Ar gyfer ystyr "regulations" gweler adran 142.

(1) 1998 c.31. For the meaning of "regulations" see section 142.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(2) The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales, in relation to Wales, by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(3) O.S. 2002/1187.

(3) S.I. 2002/1187.

- (b) yn y diffiniad o "lefel 4" a "lefel 5" yn lle'r geiriau "profion y CC" rhodder y geiriau "asesiadau gan athrawon"; ac
- (c) rhodder ar ôl y diffiniad o "anghenion addysgol arbennig" y canlynol -

"ystyr "asesiadau gan athrawon" (*teacher assessment*) yw asesiadau o ddisgyblion a wneir gan athrawon er mwyn penderfynu lefel y cyrhaeddiad y maent wedi'i chyflawni yn y Gymraeg, y Saesneg, gwyddoniaeth neu fathemateg, ac y gwneir darpariaeth asesu ar eu cyfer gan orchmynion neu o dan orchmynion a wneir o dan adran 108(3)(c) o Ddeddf Addysg 2002 sydd mewn grym pan wneir yr asesiadau".

**3. Yn rheoliad 4 -**

- (a) hepgorer paragraff (2);
- (b) ar ôl paragraff (4) rhodder:

"(5) Ar gyfer y flwyddyn ysgol 2005-06, rhaid i drydydd cynllun atodol ymwneud â chyfnod -

- (a) o ran gosod targedau a bennir yn rheoliad 30 yn unig, y blynyddoedd ysgol 2005-06 a 2006-07;
- (b) o ran popeth arall, y flwyddyn ysgol 2005-06".

**4. Yn rheoliad 11, ar ôl paragraff (2) ychwaneger y canlynol -**

"(3) Pan fydd targedau wedi'u gosod o dan baragraff (1) drwy gyfeirio at gyflawniadau ym mhroffion y CC mae'r targedau hynny i'w darllen fel petai'r cyfeiriadau at gyflawniadau ym mhroffion y CC yn gyfeiriadau at gyflawniadau mewn asesiadau gan athrawon".

**5. Yn rheoliad 12 -**

- (a) ym mharagraff (1) yn lle "ym mhroffion y CC sydd i'w gweinyddu i'r" rhodder "mewn asesiadau gan athrawon sydd i'w gwneud ar y";
- (b) ym mharagraff (2) ym mhob un o'r is-baragraffau (a) i (ch) yn lle'r gair "profion" rhodder "asesiadau".

**6. Yn rheoliad 13 -**

- (a) ym mharagraff (1) yn lle "ym mhroffion y CC sydd i'w gweinyddu i'r" rhodder y geiriau "mewn asesiadau gan athrawon sydd i'w gwneud ar y"; a hefyd
- (b) ym mharagraff (2) o bob un o'r is-baragraffau (a) i (ch) yn lle'r gair "profion" rhodder "asesiadau".

**7. Yn rheoliad 30, ar ôl paragraff 1(b) rhodder:**

"(c) yn y trydydd cynllun atodol, targedau ar gyfer y blynyddoedd ysgol 2005-06 a 2006-07".

- (b) in definition of "level 4" and "level 5" substitute for "NC tests" the words "teacher assessment"; and
- (c) insert after the definition of "supplementary plan" the following -

"teacher assessment" means the assessments of pupils carried out by teachers for the purpose of determining the level of attainment they have achieved in English, Welsh, science or mathematics, and for which assessments provision is made by or under orders made under section 108(3)(c) of the Education Act 2002 in force when the assessments are carried out;"

**3. In Regulation 4 -**

- (a) omit paragraph (2);
- (b) after paragraph (4) insert:

"(5) For the school year 2005-06, a third supplementary plan must relate to a period -

- (a) in respect only of the setting of targets specified in regulation 30, the school years 2005-06 and 2006-07;
- (b) in all other respects, the school year 2005-06".

**4. In Regulation 11, add after paragraph (2) the following -**

"(3) Where targets have been set under paragraph (1) by reference to achievements in NC tests those targets are to be read as though the references to achievements in NC tests were references to achievements in teacher assessments".

**5. In Regulation 12 -**

- (a) in paragraph (1) substitute for "NC tests to be administered to" the words "teacher assessments to be carried out of";
- (b) in paragraph (2) in each of the sub-paragraphs (a) to (d) substitute for "tests" the word "assessments".

**6. In Regulation 13 -**

- (a) in paragraph (1) substitute for "NC tests to be administered to" the words "teacher assessments to be carried out of"; and
- (b) in paragraph (2) in each of the sub-paragraphs (a) to (d) substitute for "tests" the word "assessments".

**7. In Regulation 30 after paragraph 1(b) insert:**

"(c) in the third supplementary plan, targets for the school years 2005-06 and 2006-07".

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

1 Mawrth 2005

1 March 2005

*John Marek*

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

---

(1) 1998 p.38.

---

(1) 1998 c.38.

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W16/3/05

ON

ISBN 0-11-091080-X



9 780110 910802